



Ein cyf/Our ref: WQ82607
LW-10070-21

Siân Gwenllïan AS
Sian.Gwenllian@senedd.wales

25 Mehefin 2021

Annwyl Siân,

Rwy'n ysgrifennu yn dilyn eich cwestiwn ysgrifenedig diweddar (WQ82607), a'ch e-bost dyddiedig 20 Mai at Weinidog yr Economi ynghylch gorfodi rheolau COVID-19 ar y gwasanaeth trên rhwng Caer a Chaergybi.

Yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTP) sy'n gyfrifol am orfodi rheolau COVID-19. Mae Trafnidiaeth Cymru (TfW) wedi cyhoeddi cyngor i deithwyr yn atgoffa pawb i ddilyn ei ganllawiau Teithio'n Saffach, sy'n adlewyrchu canllawiau ehangach COVID-19 ac sy'n cynnwys cadw pellter cymdeithasol a gwisgo gorchuddion wyneb. Yng Ngogledd Cymru, mae hyn yn cynnwys poster mewn gorsafoedd mewn ymateb i alw cynyddol oherwydd bod pobl yn ymweld â'r arfordir.

Drwy gydol y pandemig mae TfW wedi cyflwyno llawer o fesurau i leihau'r risgiau i gwsmeriaid a staff ac mae'r rhain yn dal i fod ar waith heddiw, gan gynnwys glanhau dwfn ychwanegol, glanhau mannau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml gyda chyfrwng gwrthfeirysol, arwyddion ychwanegol, gwybodaeth, cyhoeddiadau, mwy o staff yn dangos y ffordd i deithwyr a diogelwch yn ogystal â darparu gwybodaeth fyw drwy ein gwiriwr capasiti i bobl wneud penderfyniadau diogel ynghylch eu trefniadau teithio, y ddwy ffordd. Mae mwy o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau TfW yn gwisgo gorchuddion wyneb o'i gymharu â'r cyfartaledd rheilffyrdd cenedlaethol, gan ddangos eu bod yn ymwneud, yn cydymffurfio ac yn gweithio gyda BTP.

O ran capasiti cerbydau, mae'r holl gerbydau sydd ar gael bob amser yn cael eu defnyddio, ac mae systemau ciwio, staff ychwanegol, gwasanaethau a chludiant ffyrdd yn cael eu darparu ar gyfer mannau lle ceir problemau a chyrchfannau arfordirol.

Yn gywir,

Lee Waters AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.